



# **DOGFEN GYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG**

**Medi 2016**

## Mae'r ddogfen gydymffurfio hon yn cwmpasu Safonau'r Gymraeg canlynol:

150	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
151	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich gweithwyr a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r gweithwyr hynny.
153	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.
154	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.
155	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau darparu gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
157	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau darparu gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
159	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
161	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
163	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
165	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
167	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.
169	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.
171	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.
173	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hyrwyddo y mae dyletswydd

	arnoch i gydymffurfio â nhw, a'r graddau y mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio á'r safonau hynny, ar gael – a) ar eich gwefan, ac b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.
175	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio á'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

## 1. Trosolwg o gydymffurfiad

1.1 Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei hysbysiad olaf o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn cynnwys 171 o safonau, 144 ohonynt yn ofynnol erbyn mis Mawrth a 27 ychwanegol yn ofynnol erbyn mis Medi 2016. Mae'r Comisiynydd wedi rhannu'r rhain i bum thema wahanol.

- Darparu Gwasanaethau;
- Llunio Polisiâu;
- Hyrwyddo;
- Gweithredu;
- Cadw Cofnodion.

1.2 Mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi'r ddogfen hon a gweithredu systemau i ddangos sut y mae'n bwriadu bodloni'r safonau y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â hwy. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy o 30 Mawrth 2016 ymlaen. Yn benodol, y mae gofyn i'r cyngor:

- Ddisgrifio sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio á'r safonau yn ymwneud â llunio polisiâu, gweithredu, cadw cofnodion a darparu gwasanaethau, a'r camau yr ydym wedi eu cymryd i gyflawni hyn;
- Cadw cofnod o'r safonau yn ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisiâu, gweithredu a chadw cofnodion sy'n berthnasol, ac
- amlinellu'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo ein cydymffurfiad á'r safonau yn ymwneud â Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisiâu a Gweithredu.

Gellir dod o hyd i restr o'r safonau sy'n berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, [yma](#):

1.3 Bydd y cyngor yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi'r ddogfen hon ym mis Medi 2016 i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y mae'n bwriadu cydymffurfio á'r thema hyrwyddo, yn ogystal á'r 27 safon sy'n weddill.

1.4 **Pa gamau y mae'r cyngor wedi eu cymryd hyd yma o ran cydymffurfio?**

- Mae ganddo swyddog arweiniol ar gyfer y Gymraeg a chydaddoldeb;

- Mae wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r staff yn ystod haf 2015;
- Mae wedi sefydlu Bwrdd Safonau'r Gymraeg, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyfarwyddiaethau, a fydd yn gyfrifol am ddehongli gofynion y safonau ar y cyd, a chasglu a lledaenu data.
- Mae wedi datblygu cynllun gweithredu ac wedi rhannu ein safonau i ddeg thema allweddol. Mae gan bob thema swyddog arweiniol sy'n sicrhau bod y safonau o dan y themâu hynny yn cael eu cyfathrebu, a bod cynlluniau ar waith i sicrhau y bodlonir y safonau hyn;
- Mae wedi datblygu cynllun cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd â phob rhan o'r sefydliad mewn modd cyson ac amserol;
- Mae cofrestr risg wedi'i datblygu er mwyn helpu i nodi'r camau sydd angen eu gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau;
- Mae wedi datblygu tîm o Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r safonau a darparu cymorth ac arweiniad i aelodau'r staff;
- Mae wedi datblygu tudalennau mewnwyd ar gyfer staff, fel y gall gweithwyr gyfeirio at wybodaeth ynglŷn â'r safonau a chael gafael ar adnoddau a fydd yn eu helpu yn eu swyddi o ddydd i ddydd;
- Mae'n cyfathrebu yn rheolaidd â gweithwyr drwy e-byst a chylchlythyron staff;
- Mae wedi datblygu cyfres o sesiynau briffio i aelodau'r staff ym mhob maes gwasanaeth yn ystod mis Mawrth 2016;
- Mae wedi cyflwyno cyfrif e-bost Safonau'r Gymraeg er mwyn i aelodau'r staff gael gofyn cwestiynau. Defnyddir hwn i ddatblygu Cwestiynau Cyffredin a fydd yn cael eu dosbarthu i bob aelod o staff;
- Mae'n darparu hyfforddiant Cymraeg i staff rheng flaen er mwyn iddynt allu cwrdd a chyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog.

## 2. Darparu Gwasanaethau

2.1 Mae'r safonau o fewn y thema 'Darparu Gwasanaethau' y mae dyletswydd ar y cyngor i gydymffurfio â hwy, yn cwmpasu'r gweithgareddau canlynol:

- a) gohebu a chyfathrebu â phobl;
- b) hysbysebu rhifau ffôn;
- c) darparu gwasanaethau Cymraeg a Saesneg hygyrch o'r un ansawdd;
- ch) trefnu a chynnal cyfarfodydd preifat a chyhoeddus gyda phobl a darparu Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn os oes angen;
- d) creu a defnyddio deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata, hunaniaeth gorfforaethol, cofnodion a phapurau o'r cyfarfodydd cyhoeddus;

dd) creu dogfennau megis ffurflenni, polisïau a strategaethau, papurau ymgynghori, llyfrynnau, trwyddedau a datganiadau i'r wasg;

e) darparu gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein;

f) codi arwyddion a hysbysiadau swyddogol;

ff) darparu gwasanaethau derbynfaf;

g) rheoli grantiau a chaffael; a

ng) chyhoeddi negeseuon gan ddefnyddio systemau PA.

## **2.2 Yr hyn y bydd y cyngor yn ei wneud a'r camau sydd wedi eu cymryd**

- a) Pan fydd y cyngor yn derbyn galwadau ffôn allanol, bydd yr unigolyn yn cael ei gyfarch yn ddwyieithog (yn Gymraeg ac yna yn Saesneg) a bydd y sgwrs yn parhau yn Gymraeg nes ei bod wedi dod i ben. Os nad yw'r swyddog yn medru sgwrsio ymhellach yn Gymraeg, bydd ef/hi naill ai'n trosglwyddo'r galwr at aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os oes un ar gael), neu at aelod o staff sy'n siarad Saesneg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael.
- b) Bydd prif rif ffôn y cyngor, rhifau canolfannau galw a rhifau llinellau cymorth yr un fath ar gyfer galwyr Cymraeg a Saesneg. Pan na fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael, rhoddir gwybod i alwyr, yn Gymraeg, pryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Bydd galwyr Cymraeg i brif rif ffôn y cyngor hefyd yn cael gadael neges yn Gymraeg.
- c) Er mwyn cynorthwyo aelodau'r staff i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg, bydd y cyngor yn trefnu hyfforddiant i bob aelod o staff rheng flaen yn y derbynfydd. Bydd pob aelod o staff sy'n derbyn galwadau uniongyrchol yn gallu cael gafael ar adnoddau i'w helpu i wneud hyn. Cefnogir hyn hefyd gan gyfathrebu rheolaidd rhwng aelodau'r staff. Pan fydd rhifau ffôn yn cael eu hysbysebu, bydd y cyngor yn sicrhau ei fod yn datgan y croesewir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- ch) Pan fydd y cyngor yn trefnu cyfarfod, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol os hoffent i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg ac, os felly, bydd y cyngor naill ai'n trefnu i wasanaeth cyfieithu ar y pryd gael ei ddarparu neu, os yw'r aelod o staff yn siaradwr Cymraeg, i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg. Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff wneud hyn gan ddefnyddio'r weithdrefn trefnu ystafell gyfarfod.
- d) Pryd bynnag y bydd y cyngor yn trefnu cyfarfod cyhoeddus, neu'n ariannu hanner cant y cant o gyfarfod cyhoeddus, bydd gwahoddiadau i'r digwyddiad yn cael eu hanfon allan yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnir i unrhyw un sy'n siarad yn y cyfarfod os ydynt yn dymuno gwneud hynny yn Gymraeg, a rhoddir gwybod hefyd i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod bod croeso iddynt siarad yn Gymraeg. Darperir cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd hyn ar y cysail na fydd y cyngor yn gwybod bob amser beth fydd dewis iaith y rhai a fydd yn bresennol.

Bydd y cyngor yn sicrhau bod y deunyddiau, y gwasanaethau a'r wybodaeth a ddarperir yn y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog. Bydd aelodau o staff yn cael cyfarwyddyd ar sut i wneud hyn drwy gyfrwng cyfarwyddiadau ar-lein a thrwy gyfathrebu rheolaidd rhwng aelodau o staff.

- dd) Os bydd y cyngor yn darparu cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yn asesu'r angen i'w ddarparu yn Gymraeg a chofnodi'r wybodaeth hon. Bydd yr asesiadau hyn yn ffurfio rhan o'r broses asesu sy'n bodoli eisoes a bydd y cyngor yn datblygu ffurflen asesu a fydd yn cael ei monitro, ei chyhoeddi ar y wefan a'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar y Gymraeg.
- e) Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd y cyngor yn parhau i wneud hyn. Mae'r cyngor yn darparu canllawiau ynglŷn â hunaniaeth gorfforaethol ar gyfer ei weithwyr, er mwyn sicrhau bod logo a brandio'r cyngor yn cael ei drin yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- f) Bydd y cyngor yn hyrwyddo'r gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir ganddo, gan ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo dwyieithog a thrwy sianeli cyfathrebu arferol y cyngor.
- ff) Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn cynhyrchu polisïau, strategaethau, papurau ymgynghori a llyfrynnau ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, ac mae'n sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd y cyngor yn parhau i wneud hyn. Bydd y cyngor hefyd yn sicrhau bod unrhyw ddatganiadau i'r wasg a gyhoeddir gan y tîm cyfathrebu yn ddwyieithog (ar gyfer y cyfryngau sy'n gofyn amdanynt).
- g) Pan fydd pobl yn cysylltu â'r cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, mae'r cyngor yn ymateb yn Gymraeg. Bydd hyn yn parhau.
- ng) Bydd y cyngor yn parhau i osod arwyddion dwyieithog wrth newid arwyddion strydoedd, lleoedd a chyfarwyddiau pan fydd yr arwyddion hyn angen eu newid oherwydd difrod neu draul a gwisgo. Pan fydd yr arwyddion hyn yn cael eu newid, bydd y cyngor yn defnyddio testun o'r un maint a'r un lliw ar gyfer y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg, a bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod uwchben y testun Saesneg. Bydd arwyddion newydd yn cael eu creu yn ddwyieithog yn awtomatig. Gwirir ystyr a mynegiant yr arwyddion hyn gan gyflenwyr cyfieithu Cymraeg y cyngor.
- h) Mae hysbysiadau swyddogol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
- i) Mae aelodau o staff y derbynfeydd sy'n medru'r Gymraeg, yn gwisgo cortynnau er mwyn dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a byddant yn parhau i wneud hynny. Bydd aelodau staff y derbynfeydd sy'n dysgu Cymraeg, yn gwisgo cortynnau er mwyn dangos i bobl eu bod nhw'n ddysgwyr.

- I) Bydd y cyngor yn sicrhau bod unrhyw gyhoeddiadau clywedol yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg i'w chlywed yn gyntaf.
- II) Mae gan y cyngor systemau mewnol er mwyn rheoli sut yr ymdrinnir â cheisiadau gan y cyhoedd am grantiau, a chefnogir hyn gan ddogfen bolisi grantiau, y sonnir amdani yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Cyhoeddir y system hon ar wefan y cyngor ac mae'n rhoi gwybod i'r cyhoedd bod modd gwneud ceisiadau yn Gymraeg, y cynhelir unrhyw gyfweiliad sy'n gysylltiedig yn Gymraeg os oes angen, ac y bydd ceisiadau Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- m) Bydd y cyngor yn derbyn tendrau a chyfweiliadau cysylltiedig yn Saesneg neu'n Gymraeg, ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- n) Nid yw'r cyngor ar hyn o bryd yn gwneud cyhoeddiadau cyffredinol gan ddefnyddio'r system PA. Fodd bynnag, bydd y cyngor yn parhau i wneud cyhoeddiad blynyddol Diwrnod y Cadoediad yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan roi'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.

### 3. Lluio Polisiâu

3.1 Mae'r safonau o fewn y thema 'llunio polisiâu' yn cwmpasu'r gweithgareddau canlynol:

- a) llunio polisiâu newydd neu ddiwygio rhai presennol;
- b) cyhoeddi dogfennau ymgynghori;
- c) cyhoeddi polisi yn ymwneud â grantiau; a
- ch) chomisiynu neu ymgymryd â gwaith ymchwil

### 3.2 Yr hyn y mae'r cyngor wedi ei wneud hyd yn hyn a'r camau y mae wedi eu cymryd

a) Mae'r cyngor eisoes yn ymgymryd ag Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) o ran polisiâu newydd a rhai sy'n cael eu hadolygu, er mwyn dod o hyd i'r effaith negyddol, niwtral neu gadarnhaol posibl ar bobl. Mae'r broses EIA wedi'i hadolygu ac mae bellach yn cynnwys adrannau a chanllawiau penodol ynglŷn â gofynion Safonau'r Gymraeg er mwyn i reolwyr allu eu defnyddio pan fo polisiâu'n cael eu hadolygu neu eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys:

- ystyried pa effeithiau fydd gan bolisi ar allu pobl i ddefnyddio Cymraeg a pha un a yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;
- pa un a fydd y polisi yn cael mwy o effaith ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; a
- pha un a ellid cyflwyno'r polisi fel nad yw'n cael effaith negyddol (neu effeithiau llai negyddol) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

- b) Mae'r cyngor wedi datblygu proses newydd yn ddiweddar sy'n sicrhau bod yn rhaid cael EIA i gyd-fynd â phob adroddiad cabinet.
- c) Pryd bynnag y mae'r cyngor yn cynnal ymgynghoriad neu waith ymchwil yn ymwneud â phenderfyniad polisi, gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan fynegi eu barn ynglŷn â'r effaith bosibl fydd y polisi yn ei gael ar:
- allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pha un a yw'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal;
  - effeithiau cynyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - chyflwyno'r polisi yn y fath fodd fel nad yw'n cael effaith negyddol (neu effaith llai negyddol) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r cyngor yn cofnodi adborth yr ymgynghoriad hwn ac yn ei ddefnyddio pan ymgymerir ag Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

- ch) Mae'r cyngor wedi datblygu a chyhoeddi polisi yn ymwneud â dyfarnu grantiau, sy'n cymryd i ystyriaeth:

- pa effaith fydd dyfarnu grant yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- sut y gellid rhoi'r grant hwn ar waith fel ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal;
- sut y gallai dyfarnu'r grant fod yn ddarostyngedig i amodau fel na fyddai'n cael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal; a
- pha un a oes angen i ni ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth i'n cynorthwyo i asesu'r effeithiau ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

## 4. Gweithredu

4.1 Mae'r safonau o fewn y thema 'gweithredu' yn cwmpasu'r gweithgareddau canlynol:

- a) datblygu polisi yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fewnol;
- b) diwygio polisiau AD sydd eisoes yn bodoli i gymryd i ystyriaeth trefniadau newydd ar gyfer cwynion gan aelodau staff;
- c) darparu aelodau o staff â meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg;
- ch) datblygu tudalennau mewnwyd yn Gymraeg;
- d) asesu sgiliau Cymraeg gweithwyr a darparu cyfleoedd i aelodau staff gael dysgu am y Gymraeg/diwylliant Cymru yn ystod oriau gwaith arferol;



- dd) darparu gwybodaeth Adnoddau Dynol i aelodau staff yn ymwneud â meysydd megis polisïau a hyfforddiant;
- e) darparu logo a geiriad i staff, i'w defnyddio gyda llofnodion e-bost;
- f) asesu gofynion swyddi gwag a pha un a oes angen sgiliau Cymraeg;
- ff) caniatáu pobl i wneud ceisiadau am swyddi yn Gymraeg a gwneud y broses o geisio am swydd ar gael yn Gymraeg;
- g) codi arwyddion dwyieithog.

#### **4.2 Yr hyn y mae'r cyngor wedi ei wneud hyd yn hyn a'r camau y mae wedi eu cymryd**

- a) Mae'r cyngor wedi datblygu polisi yn ymwneud â Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle, sy'n amlinellu sut y gall aelodau o staff gael eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn eu busnes o ddydd i ddydd pan fo hynny'n bosibl. Mae ein polisïau mewnol ynglŷn â chwyno, urddas yn y gweithle a disgyblaeth wedi'u cyfieithu ac maent yn galluogi aelodau o staff i gwyno yn Gymraeg, yn eu galluogi i ymateb i honiadau neu gwynion yn eu herbyn yn Gymraeg, a'u galluogi i ofyn i achos disgyblu yn eu herbyn gael ei gynnal yn Gymraeg.
- b) Mae'r cyngor wedi lawrlwytho meddalwedd sy'n galluogi aelodau o staff i wirio eu gramadeg a'u sillafu Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r holl waith cyfieithu yn cael ei wneud gan restr o gyfieithwyr wedi'u caffael er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb.
- c) Bydd y cyngor yn sicrhau bod hafan a dewislenni ei fewnrwyd yn ddwyieithog ac yn gwbl weithredol. Bydd y tudalennau Cymraeg yn cyfateb i'r tudalennau Saesneg, ac fe ddarperir dolenni rhwng y tudalennau hyn.
- ch) Mae'r cyngor yn datblygu system ar gyfer casglu manylion sgiliau Cymraeg y gweithwyr i gyd. Bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro sgiliau'r gweithwyr. Mae adnoddau e-ddysgu hefyd ar gael i weithwyr wella eu sgiliau siarad Cymraeg a chael gwybod mwy am hanes a diwylliant Cymru.
- d) Mae'r cyngor wedi darparu gweithwyr â geiriad safonol i'w defnyddio ar eu negeseuon 'allan o'r swyddfa' ar gyfer e-byst. Mae'r negeseuon hyn yn rhai dwyieithog y mae aelodau o'n staff yn eu defnyddio pan nad ydynt yn y swyddfa.
- dd) Mae'r cyngor hefyd wedi creu logo ar gyfer gweithwyr sy'n medru'r Gymraeg, iddynt ei ddefnyddio ar eu llofnodion e-bost er mwyn dangos i bobl eu bod yn siaradwyr neu'n ddysgwyr Cymraeg.

e) Mae gan y cyngor systemau ar waith i nodi pa un a ddylai swyddi gwag gael eu hysbysebu neu eu hadolygu ac ati. Er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr sy'n medru'r Gymraeg a gwella'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y cyngor, bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu gan nodi'r Gymraeg fel bod yn ddymunol, oni bai bod sgrinio yn nodi bod y Gymraeg yn ofyniad hanfodol. Mae'n ofynnol i'r cyngor, wrth hysbysebu swydd wag/swyddi gwag, asesu pa un a yw'r swydd/swyddi yn gofyn am y Gymraeg fel sgil:

- hanfodol,
- i'w ddysgu yn dilyn penodi i'r swydd,
- dymunol; neu
- heb fod yn angenrheidiol

Mae'r cyngor yn cynnal yr asesiadau hyn pryd bynnag y bo swydd wag yn cael ei hysbysebu. Cofnodir a chedwir yr wybodaeth o'r asesiadau ar gyfer prosesau adrodd.

f) Mae system recriwtio ar y we y cyngor yn ddwyieithog, ac mae trefniadau ar y gweill i ymgeiswyr dderbyn yr holl ddogfennau yn Gymraeg a chael gafael ar y broses ddethol yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

ff) Mae pob arwydd ym mhrif dderbynfa'r cyngor yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf. Pan fydd y cyngor yn newid arwyddion yn ei weithleoedd, bydd yr wybodaeth a'r testun ar yr arwyddion yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn dod yn gyntaf. Darperir cyfieithiadau gan restr o gyfieithwyr wedi'u caffael, ac ystyrir bod y cyfieithiadau hynny'n fanwl gywir.

### **4.3 Goruchwylio safonau darparu gwasanaethau, gweithredu a llunio polisïau:**

Mae gan y cyngor swyddog arweiniol ar gyfer y Gymraeg a chydaddoldeb. Rhoddwyd cyfrifoldeb ar aelodau Bwrdd Gweithredu Safonau'r Gymraeg y cyngor i oruchwylio cydymffurfiad y cyngor â'r safonau. Cadeirir y bwrdd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ac mae aelodau yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth. Yn ychwanegol at hyn, y mae'r bwrdd wedi cytuno y bydd swyddog arweiniol ar gyfer pob un o 10 thema'r cyngor, i gefnogi cysondeb ac i gyfathrebu'r safonau:

- Cyswllt â chwsmeriaid ac arwyddion mewnol: Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid;
- Cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a hyfforddiant: Rheolwr Grŵp, Cymorth Busnes, Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles;
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu, Systemau TGCh, peirannau hunanwasanaeth, ymgynghori ac ymchwil: Rheolwr Marchnata ac Ymgysylltu;
- Dogfennau cyhoeddus: Rheolwr Grŵp, Strategaeth Fusnes a Pherfformiad;

- Arwyddion allanol, ceisiadau grant, caffael a datblygu polisi: Rheolwr Grŵp, Cymorth Busnes, Cymunedau;
- Dogfen gydymffurfio a'r weithdrefn gwyno: Swyddog Cydraddoldeb; ac
- Adnoddau Dynol a chysylltiadau â gweithwyr: Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

## **5. Cadw cofnodion**

### **5.1 Mae'r safonau o fewn y thema 'cadw cofnodion' yn cwmpasu cadw cofnodion:**

- a) o'r cwynion y mae'r cyngor yn eu derbyn;
- b) o sut y mae'r cyngor yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau yn ymwneud â llunio polisïau;
- c) sgiliau Cymraeg gweithwyr y cyngor a'r hyfforddiant a ddilynwyd; ac
- ch) asesiadau o swyddi newydd neu swyddi gwag, ac unrhyw ofynion o ran y Gymraeg.

### **5.2 Yr hyn y mae'r cyngor wedi ei wneud hyd yn hyn, a'r camau y mae wedi eu cymryd**

- a) Mae'r cyngor wedi adolygu'r broses gwyno sydd eisoes yn bodoli, i gynnwys nifer y cwynion a dderbynnir ynglŷn â'i gydymffurfiaid â safonau'r Gymraeg. Bydd yr wybodaeth a gesglir ynglŷn â chwynion yn cael ei defnyddio yn yr adroddiad blynyddol ar y Gymraeg.
- b) Mae'r cyngor wedi amlinellu sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisïau yn yr adran llunio polisïau (adran 3, tudalen 7 a 8).
- c) Fel y soniwyd eisoes yn adran 4.2 d, mae'r cyngor wedi adolygu ei systemau ar gyfer casglu gwybodaeth am weithwyr, er mwyn gallu casglu gwybodaeth fwy manwl gywir am allu gweithwyr i siarad Cymraeg. Bydd y cyngor yn cadw cofnodion o'r hyfforddiant a ddilynir gan aelodau staff ym mhob blwyddyn ariannol a'u sgiliau Cymraeg pan fo hynny'n hysbys.
- ch) Bydd y cyngor yn cofnodi ac yn cadw gwybodaeth ynglŷn â swyddi gwag a sgiliau Cymraeg fel y nodwyd yn adran 4.2 (f). Adroddir ar hyn yn rhan o'r adroddiad blynyddol ar y Gymraeg.

## **6. Hybu**

### **6.1 Mae'r safonau yn y thema 'hybu' yn cwmpasu:**

- a) cynhyrchu strategaeth pum mlynedd ar y modd y mae'r cyngor yn cynnig hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol ac ymysg cyflogaion.
- b) pum mlynedd ar ôl cynhyrchu'r strategaeth, cynnal a chyhoeddi asesiad o'r strategaeth, niferoedd y siaradwyr Cymraeg (a'u hoedrannau) yn y fwrdeistref

sirol ac ar gyfer cyflogeion a'r gweithgareddau a drefnir neu a ariennir i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

## 6.2 Yr hyn y mae'r cyngor wedi ei wneud hyd yn hyn a'r camau y mae wedi eu cymryd

Mae'r cyngor wedi cynhyrchu a chyhoeddi [strategaeth pum mlynedd](#) ar gyfer cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a nifer y cyflogeion. Mae'r strategaeth yn ystyried:

- a. y data cyfredol ar ein staff sy'n siarad Cymraeg a throsolwg o'n darpariaeth yn y gweithlu a
- b. data o gyfrifiad 2011 a throsolwg o'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer hybu'r Gymraeg i'r cyhoedd.

Mae'r strategaeth yn pennu nodau ac amcanion ar gyfer cyfnod y strategaeth ac yn esbonio sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

## 7. Safonau Atodol

Ceir safonau atodol y mae'n ofynnol i'r cyngor gydymffurfio â hwy o fewn y themâu Darparu Gwasanaethau, Llundio Polisiâu, Gweithredu a Chadw Cofnodion. Y rhain yw:

1. cyhoeddi dogfen yn cofnodi'r safonau priodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisiâu, gweithredu, cadw cofnodion a hybu;
2. cyhoeddi gweithdrefn gwyno yn ymdrin â'r safonau yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisiâu a gweithredu;
3. cyhoeddi trefniadau ar gyfer goruchwyllo sut yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau yn ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisiâu a gweithredu;
4. llunio adroddiad blynyddol;
5. cyhoeddi dogfen yn egluro sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisiâu a gweithredu, a
6. chyhoeddi dogfen yn amlinellu unrhyw gofnodion a gedwir yn unol â'r safonau yn ymwneud â chadw cofnodion, a darparu'r wybodaeth hon ac unrhyw wybodaeth arall i Gomisiynydd y Gymraeg os gofynnir am hynny.

Mae'r cyngor wedi llunio'r ddogfen hon i gydymffurfio ag eitemau 1, 3 a 5 uchod. Mae wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno (eitem 2) a bydd yn llunio adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn (eitem 4). Bydd hefyd yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan Gomisiynydd y Gymraeg yn gysylltiedig â'r safonau yn ymwneud â chadw cofnodion neu unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani (eitem 6).